**Dangosyddion Darbodus FY 2009/10 - FY 2011/12**

## 1. Cefndir:

Mae gofyniad dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 bod awdurdodau lleol yn ystyried Cod Materion Ariannol CIPFA ar Gyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol ( "Cod Materion Ariannol CIPFA") wrth bennu ac adolygu eu Dangosyddion Darbodus. Dylid nodi bod CIPFA wedi adolygu'r Cod yn gynnar yn 2008. Ni chyhoeddwyd canlyniad yr adolygiad hwnnw eto.

## 2. Amcangyfrifon o Wariant Cyfalaf:

2.1 Caiff y dangosydd hwn ei bennu er mwyn sicrhau bod gwariant cyfalaf arfaethedig yn aros o fewn terfynau cynaliadwy ac, yn arbennig, er mwyn ystyried yr effaith ar Dreth y Cyngor ac, yn achos y Cyfrif Refeniw Tai, rhenti tai.

| **Rhif 1** | **Gwariant Cyfalaf** | 2008-09 | 2008-09 | 2009-10 | 2010-11 | 2011-12 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Cymeradwy £m | Diwygiedig £m | Amcangyfrif £m | Amcangyfrif £m | Amcangyfrif £m |
| | Heblaw HRA | 21.6 | 22.0 | 25.6 | 43.5 | 21.2 |
| | HRA | 12.5 | 12.0 | 12.0 | 12.0 | 12.0 |
| | **Cyfanswm** | **34.1** | **34.0** | **37.6** | **55.5** | **33.2** |

2.2 Bydd gwariant cyfalaf yn cael ei gyllido fel a ganlyn:

| **Cyllido Cyfalafol** | 2008-09 | 2008-09 | 2009-10 | 2010-11 | 2011-12 |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cymeradwy £m | Diwygiedig £m | Amcangyfrif £m | Amcangyfrif £m | Amcangyfrif £m |
| Derbyniadau cyfalaf | 7.7 | 2.7 | 3.9 | 9.7 | 3.1 |
| Grantiau'r llywodraeth | 8.6 | 13.5 | 15.3 | 27.0 | 12.3 |
| Lwfans Atgyweiriadau Mawr | 7.6 | 7.6 | 7.6 | 7.6 | 7.6 |
| Cyfraniadau cyllidol | 4.0 | 4.0 | 4.0 | 4.0 | 4.0 |
| Benthyca cynaledig | 6.2 | 6.2 | 6.2 | 6.2 | 6.2 |
| Benthyca heb ei gynnal | | | 0.6 | 1.0 | |
| **Cyfanswm** | **34.1** | **34.0** | **37.6** | **55.5** | **33.2** |

*Sylwch fod yr elfen i'w chyllido trwy fenthyca yn effeithio ar y symudiad yn y Gofyniad Cyllido Cyfalaf.*

## 3. Cymhareb Costau Cyllido i'r Llif Cyllid Clir:

3.1 Dangosydd yw hwn o fforddiadwyedd ac mae'n tynnu sylw at oblygiadau cyllidol gwariant cyfalaf presennol ac arfaethedig trwy nodi cyfran y gyllideb gyllidol sydd ei hangen i dalu costau benthyca. Mae costau cyllido'n cael eu diffinio ym mharagraff 87 o'r Cod Materion Ariannol.

3.2 Seiliwyd y gymhareb ar gostau clir o incwm o fuddsoddiad.

| **Rhif 2** | **Cymhareb Costau Cyllido i Lif Cyllid Clir** | 2008-09 | 2008-09 | 2009-10 | 2010-11 | 2011-12 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Cymeradwy % | Diwygiedig % | Amcangyfrif % | Amcangyfrif % | Amcangyfrif % |
| | Heblaw HRA | 5.15 | 4.82 | 5.29 | 5.20 | 5.25 |
| | HRA | 3.80 | 4.27 | 3.68 | 3.27 | 2.84 |

## 4. Gofyniad Codi Cyfalaf:

4.1 Mae'r Gofyniad Codi Cyfalaf (CFR) yn mesur angen sylfaenol y Cyngor i fenthyg at ddibenion codi cyfalaf. Caiff y CFR ei gyfrifo o'r symiau ar y fantolen sy'n berthnasol i wariant cyfalaf a'i gyllido. Mae'n gydgasgliad o'r symiau ar gyfer Asedau Sefydlog ac Anniriaethol, y Gronfa Ailbrisio, y Cyfrif Addasu Cyfalaf, Grantiau Gohiriedig y Llywodraeth ac unrhyw weddillion eraill sy'n cael eu trin fel gwariant cyfalaf.

| **Rhif 3** | **Capital Financing Requirement** | 31/3/09 | 31/3/09 | 31/3/10 | 31/3/11 | 31/3/12 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Cymeradwy | Diwygiedig | Amcangyfrif | Amcangyfrif | Amcangyfrif |
| | | £m | £m | £m | £m | £m |
| | Heblaw HRA | 118.9 | 118.1 | 119.8 | 122.2 | 123.5 |
| | HRA | 12.5 | 16.3 | 15.4 | 14.5 | 13.7 |
| | **Cyfanswm CFR** | **131.4** | **134.4** | **135.2** | **136.7** | **137.2** |

4.2 Mae'r newid yn y CFR o un flwyddyn i'r llall i'w briodoli i'r canlynol:

| **Gofyniad Codi Cyfalaf** | 2008-09 | 2008-09 | 2009-10 | 2010-11 | 2011-12 |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cymeradwy £m | Diwygiedig £m | Amcangyfrif £m | Amcangyfrif £m | Amcangyfrif £m |
| **Gweddill a ddygwyd ymlaen** | **133.6** | **133.8** | **134.4** | **135.2** | **136.7** |
| Gwariant cyfalaf a gyllidwyd trwy fenthyg (yn ôl 2.2) | 6.2 | 6.2 | 6.8 | 7.2 | 6.2 |
| Cyllid a ddarparwyd ar gyfer talu dyled | 4.9 | 5.2 | 5.4 | 5.2 | 5.2 |
| Gwerthu tai cyngor HRA a neilltuwyd | 3.5 | 0.4 | 0.6 | 0.5 | 0.5 |
| **Gweddill a ddygwyd ymlaen** | **131.4** | **134.4** | **135.2** | **136.7** | **137.2** |

4.3 Er mwyn sicrhau na fydd benthyca clir dros y tymor canolig ond at ddibenion codi cyfalaf, dylai'r Cyngor sicrhau nad yw benthyca allanol clir, heblaw am y tro, yn fwy na'r Gofyniad Codi Cyfalaf yn y flwyddyn flaenorol ynghyd ag amcangyfrifon unrhyw ofyniad codi cyfalaf ychwanegol am y flwyddyn ariannol gyfredol a'r ddwy nesaf.

4.4 Dywed y Prif Swyddog Cyllid a Pherfformiad na chafodd y Cyngor hwn unrhyw anhawster yn ateb y gofyniad hwn yn 2007-08 ac na ragwelir anawsterau am y flwyddyn ariannol bresennol nac yn y dyfodol.

## 5. Gwir Ddyled Allanol:

5.1 Daw'r dangosydd hwn yn uniongyrchol o Ddatganiad Cyfrifon y Cyngor. Dyma'r gweddill wrth gau o ran gwir fenthyca crynswth ynghyd â dyledion hirdymor eraill. Caiff y dangosydd hwn ei fesur mewn ffordd sy'n cyd-fynd er mwyn cymharu â'r Terfyn Gweithredol a'r Terfyn Awdurdodedig.

| **Rhif 4** | **Gwir Ddyled Allanol ar 31/3/2008** | £m |
|---|---|---|
| SOA nodyn 33 | Benthyca | 132.3 |
| SOA nodyn 28 | Dyledion Hirdymor Eraill | 0.9 |
| | **Cyfanswm** | **133.2** |

***Sylwch:*** *Bydd newidiadau cyfrifyddu o naill ai 2009/10 neu 2010/11 yn gofyn cynnwys cynlluniau Menter Cyllid Preifat yn y Gofyniad Codi Cyfalaf a Dyledion Hirdymor Eraill.*

## 6. Effaith Gynyddrannol Penderfyniadau Buddsoddi Cyfalaf:

6.1 Dangosydd fforddiadwyedd yw hwn sy'n dangos effaith penderfyniadau buddsoddi cyfalaf ar Dreth y Cyngor a Rhenti Tai. Caiff yr effaith gynyddrannol ei chyfrifo trwy gymharu cyfanswm gofyniad cyllideb gyllidol y rhaglen gyfalaf gymeradwy bresennol gyda chyfrifiad cyfatebol o'r gofyniad cyllideb gyllidol sy'n deillio o'r rhaglen gyfalaf arfaethedig.

| Rhif 5 | **Effaith Gynyddrannol Penderfyniadau Buddsoddi Cyfalaf** | 2008-09 | 2009-10 | 2010-11 | 2011-12 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Cymeradwy £ | Amcangyfrif £ | Amcangyfrif £ | Amcangyfrif £ |
| | Cynnydd yn Nhreth y Cyngor Haen D | 31.12 | 30.36 | 28.06 | 29.93 |
| | Cynnydd yn Rhenti Tai Wythnosol ar Gyfartaledd | 0 | 0 | 0 | 0 |

*Caiff effaith gynyddrannol penderfyniadau buddsoddi cyfalaf ar renti tai ei chyfrifo fel dim am nad oes unrhyw fwriad i gyllido Cyfalaf Tai trwy fenthyca.*

## 7. Terfyn Awdurdodedig a Therfyn Gweithredol Dyled Allanol:

7.1 Mae gan y Cyngor strategaeth gyfun rheoli'r trysorlys ac mae'n rheoli sefyllfa ei drysorlys yn unol â'i strategaeth ac arfer cymeradwy. Felly, bydd benthyca at ei gilydd yn codi o ganlyniad i holl weithrediadau ariannol y Cyngor ac nid yn unig y rhai'n deillio o wariant cyfalaf yn cael ei adlewyrchu yn y CFR.

7.2 Mae'r **Terfyn Awdurdodedig** yn pennu'r benthyca allanol mwyaf y Cyngor ar sail grynswth (h.y. heb dynnu buddsoddiadau). Mae'n cael ei fesur bob dydd gyferbyn â holl eitemau benthyca allanol ar y Fantolen (h.y. benthyca hirdymor a byrdymor, dyledion i'r banc a dyledion hirdymor. Mae'r Dangosydd Darbodus hwn yn dangos benthyca ar wahân o ddyledion hirdymor eraill fel prydlesi cyllidol. Mae'n cyd-fynd ag ymrwymiadau presennol y Cyngor, ei gynigion gwario a chyllido cyfalaf a'i ddatganiad polisi rheoli'r trysorlys ac arferion cymeradwy.

7.3 Pennwyd y Terfyn Awdurdodedig ar amcangyfrif y senario mwyaf tebygol, darbodus ond nid gwaethaf gyda digon o le uwchlaw hyn i ddarparu ar gyfer symudiadau arian parod anghyffredin.

7.4 Y Terfyn Awdurdodedig yw'r terfyn statudol a bennwyd dan Adran 3(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 (y cyfeiriwyd ato yn y ddeddfwriaeth fel y Terfyn Fforddiadwy).

| Rhif 6 | **Terfyn Awdurdodedig Dyled Aallanol** | 2008-09 | 2008-09 | 2009-10 | 2010-11 | 2011-12 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Cymeradwy £m | Diwygiedig £m | Amcangyfrif £m | Amcangyfrif £m | Amcangyfrif £m |
| | Benthyca | 169.0 | 178.7 | 181.3 | 180.5 | 178.0 |
| | Dyledion Hirdymor Eraill | 1.9 | 1.9 | 1.6 | 1.4 | 1.2 |
| | **Cyfanswm** | **170.9** | **180.6** | **182.9** | **181.9** | **179.2** |

7.5 Mae cysylltiad uniongyrchol rhwng y **Terfyn Gweithredol** ac amcangyfrifon y Cyngor o'r CFR ac amcangyfrifon o ofynion eraill llif arian. Seiliwyd y dangosydd hwn ar yr un amcangyfrifon â'r Terfyn Awdurdodedig yn adlewyrchu'r senario mwyaf tebygol, darbodus ond nid gwaethaf ond heb y lle ychwanegol sydd yn y Terfyn Awdurdodedig.

7.6 Mae gan y Prif Swyddog Cyllid a Pherfformiad awdurdod dirprwyedig, o fewn y terfyn llawn yn unrhyw flwyddyn unigol, i beri symudiad rhwng y terfynau a gytunwyd ar wahân ar gyfer benthyca a dyledion hirdymor eraill. Bydd penderfyniadau ar sail canlyniad gwerthuso dewisiadau ariannol ac ystyriaethau gwerth gorau. Bydd unrhyw symudiad rhwng y terfynau ar wahân hyn yn cael ei hysbysu i gyfarfod nesaf y Bwrdd Gweithredol.

| **Rhif 7** | **Terfyn Gweithredol Dyled Allanol** | 2008-09 | 2008-09 | 2009-10 | 2010-11 | 2011-12 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Cymeradwy £m | Diwygiedig £m | Amcangyfrif £m | Amcangyfrif £m | Amcangyfrif £m |
| | Benthyca | 132.3 | 169.7 | 172.3 | 171.5 | 169.0 |
| | Dyledion Hirdymor Eraill | 0.9 | 0.9 | 0.6 | 0.4 | 0.2 |
| | **Cyfanswm** | **133.2** | **170.6** | **172.9** | **171.9** | **169.2** |

***Sylwch:*** *Bydd newidiadau cyfrifyddu o naill ai 2009/10 neu 2010/11 yn gofyn cynnydd yn y Terfyn Awdurdodedig a'r Terfyn Gweithredol ar gyfer cynlluniau Menter Cyllid Preifat.*

## 8. Mabwysiadu Cod CIPFA ar Reoli'r Drysorfa:

8.1 Mae'r dangosydd hwn yn dangos bod y Cyngor wedi mabwysiadu egwyddorion arferion gorau.

| **Rhif 8** | **Mabwysiadu Cod Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Drysorfa** |
|---|---|
| | Cymeradwyodd y Cyngor fabwysiadu Cod CIPFA ar Reoli'r Drysorfa ar 19 Mawrth 2002. |

## 9. Terfynau Uchaf Amlygiad i Gyfraddau Llog Sefydlog a Chyfraddau Llog Newidiol:

9.1 Mae'r dangosyddion hyn yn caniatáu i'r Cyngor reoli i ba raddau y mae'n agored i newidiadau yng nghyfraddau llog. Mae'r Cyngor hwn yn cyfrifo'r terfynau hyn ar symiau prifswm clir dyledus, (h.y. dyled gyfradd benodol clir o fuddsoddiadau cyfradd benodol. Ychwanegwyd dangosyddion lleol i ddangos cyfansoddiad y terfynau rhwng Dyled a Buddsoddiadau.

9.2 Pennwyd y terfyn uchaf ar fod yn agored i gyfradd newidiol i sicrhau nad yw'r Cyngor yn agored i godiad cyfraddau llog allai effeithio er gwaeth ar y gyllideb gyllidol. Mae'r terfyn yn caniatáu defnyddio dyled cyfradd newidiol i wrthbwyso dod i gysylltiad â newidiadau mewn cyfraddau byrdymor ar fuddsoddiadau.

| | | 2008-09 | 2008-09 | 2009-10 | 2010-11 | 2011-12 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Cymeradwy £m | Diwygiedig £m | Amcangyfrif £m | Amcangyfrif £m | Amcangyfrif £m |
| **Rhif 9** | **Terfyn Uchaf Amlygiad i Gyfradd Log Sefydlog** | 6.0 | 5.1 | 6.3 | 6.4 | 6.5 |
| **Rhif 10** | **Terfyn Uchaf Amlygiad i Gyfradd Newidiol** | 1.4 | 0.9 | 1.5 | 1.6 | 1.7 |
| **9L** | **Terfyn Uchaf Amlygiad i Gyfradd Log Sefydlog** | | | | | |
| | • **Dyled** | 8.1 | 8.1 | 8.1 | 8.0 | 7.7 |
| | • **Buddsoddiadau** | 2.1 | 3.0 | 1.8 | 1.6 | 1.1 |
| **10L** | **Terfyn Uchaf Amlygiad i Gyfradd Newidiol** | | | | | |
| | • **Dyled** | 2.4 | 2.4 | 2.4 | 2.4 | 2.3 |
| | • **Buddsoddiadau** | 1.0 | 1.5 | 1.0 | 0.8 | 0.6 |

9.3 Mae'r terfynau uchod yn rhoi'r hyblygrwydd angenrheidiol ar gyfer gwneud penderfyniadau ar gymryd benthyciadau newydd ar sail cyfradd benodol neu newidiol; yn y pen draw rhagolygon symudiad cyfraddau llog fydd sail y penderfyniadau fel y nodwyd yn strategaeth reoli trysorlys y Cyngor.

## 10. Strwythur Aeddfedrwydd Benthyca Cyfradd Benodol:

10.1 Mae'r dangosydd hwn yn tynnu sylw at fodolaeth unrhyw grynoadau mawr o ddyled cyfradd benodol fydd angen eu disodli ar adegau o ansicrwydd ynghylch cyfraddau llog ac fe'i lluniwyd i warchod rhag bod yn rhy agored i newid cyfraddau llog yn unrhyw un cyfnod, yn arbennig yn ystod y deng mlynedd nesaf.

10.2 Caiff ei gyfrif fel faint o fenthyca estynedig ar gyfradd benodol sy'n aeddfedu ymhob cyfnod fel canran o gyfanswm y benthyca estynedig ar gyfradd benodol. Mae aeddfedrwydd benthyciad yn cael ei benderfynu trwy gyfeirio at y dyddiad cynharaf y gall y rhoddwr benthyg fynnu taliad.

| **Rhif 11** | **Strwythur aeddfedrwydd benthyca cyfradd benodol** | **Terfyn Isaf %** | **Terfyn Uchaf %** |
|---|---|---|---|
| | dan 12 mis | 0 | 30 |
| | 12 mis ac o fewn 24 mis | 0 | 20 |
| | 24 mis ac o fewn 5 mlynedd | 0 | 25 |
| | 5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd | 0 | 75 |
| | 10 mlynedd a hwy | 0 | 100 |

## 11. Terfyn uchaf cyfanswm prifsymiau a fuddsoddwyd dros 364 diwrnod:

11.1 Diben y terfyn hwn yw cyfyngu ar bosibilrwydd colled all ddigwydd o ganlyniad i'r Cyngor orfod ceisio ad-daliad cynnar o'r symiau a fuddsoddwyd.

| **Rhif 12** | **Terfyn uchaf cyfanswm prifsymiau a fuddsoddwyd dros 364 diwrnod** | 2008-09 | 2008-09 | 2009-10 | 2010-11 | 2011-12 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Cymeradwy £m | Diwygiedig £m | Amcangyfrif £m | Amcangyfrif £m | Amcangyfrif £m |
| | | 20 | 20 | 20 | 15 | 15 |

**Strategaeth Reoli'r Trysorlys 2009/10 – 2011/12**

## 1. Cefndir:

1.1 Mae Cod Ymarfer y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ar Reoli'r Drysorfa mewn gwasanaethau cyhoeddus ("Cod TM CIPFA") yn gofyn bod awdurdodau lleol yn pennu'r Datganiad Strategaeth Reoli'r Trysorlys (TMSS) ar fenthyca bob blwyddyn ariannol.

1.2 Mae CIPFA wedi diffinio Rheoli'r Drysorfa fel:
*"rheoli llifau arian y sefydliad, ei fancio, y farchnad arian a thrafodion y farchnad gyfalaf; rheoli'r peryglon cysylltiedig â'r gweithgareddau hynny'n effeithiol; a cheisio cael perfformiad eithaf sy'n gyson â'r peryglon hynny."*

1.3 Mae'r Cyngor yn ystyried bod adnabod, arolygu a rheoli risg yn llwyddiannus fel y prif feini prawf ar gyfer mesur effeithiolrwydd ei weithgareddau rheoli trysorlys. Nodwyd peryglon rheoli'r Trysorlys yn Arferion cymeradwy Rheoli Trysorfa'r Cyngor; y prif beryglon i weithgareddau trysorlys y Cyngor yw:

- Risg Hylifedd (adnoddau arian parod annigonol)
- Risg y Farchnad neu Gyfraddau Llog (amrywiadau mewn cyfraddau llog ac, felly, yng ngwerth buddsoddiadau).
- Risgiau Chwyddiant (bod yn agored i chwyddiant)
- Risg Credydwyr a Phartïon (gwarant buddsoddiadau)
- Risgiau Ailgyllido (effaith dyled yn aeddfedu yn y blynyddoedd a ddaw).
- Risg Gyfreithiol a Rheoleiddiol (h.y. peidio â chydymffurfio â gofynion statudol a rheoleiddiol, perygl twyll).

1.4 Mae'r strategaeth hefyd yn ystyried y rhagolwg o ran cyfraddau llog, sefyllfa bresennol trysorlys y Cyngor a'i Ddangosyddion Darbodus cymeradwy (gwelwch dudalen 25). Mae'r Dangosyddion Perfformiad perthnasol i strategaeth reoli'r trysorlys yn cael eu cyflwyno isod:

| **Rhif DP** | | 2008-09 Cymeradwy | 2008-09 Diwygiedig | 2009-10 Amcangyfrif | 2010-11 Amcangyfrif | 2011-12 Amcangyfrif |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 6 | Terfyn Awdurdodedig* Dyled Allanol | *£170.9m* | *£180.6m* | *£182.9m* | *£181.9m* | *£179.2m* |
| 7 | Terfyn Gweithredol Dyled Allanol * | *£133.2m* | *£170.6m* | *£172.9* | *£171.9* | *£169.2* |
| 9 | Terfyn Uchaf Amlygrwydd i Gyfradd Log Sefydlog | *£6.0m* | *£5.1m* | *£6.3m* | *£6.4m* | *£6.5m* |
| 10 | Terfyn Uchaf Amlygrwydd i Gyfradd Newidiol | *£1.4m* | *£0.9m* | *£1.5m* | *£1.6m* | *£1.7m* |
| 12 | Terfyn Uchaf cyfanswm prifsymiau a fuddsoddwyd dros 364 diwrnod | *£20m* | *£20m* | *£20m* | *£15m* | *£15m* |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 11 | Strwythur aeddfedrwydd benthyca cyfradd benodol: | Terfyn Isaf % | Terfyn Uchaf % |
| | dan 12 mis | 0 | 30 |
| | 12 mis ac o fewn 24 mis | 0 | 20 |
| | 24 mis ac o fewn 5 mlynedd | 0 | 25 |
| | 5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd | 0 | 75 |
| | 10 mlynedd a hwy | 0 | 100 |

**** Sylwch:*** *Bydd newidiadau cyfrifyddu o naill ai 2009/10 neu 2010/11 yn gofyn cynnydd yn y Terfyn Awdurdodedig a'r Terfyn Gweithredol ar gyfer cynlluniau Menter Cyllid Preifat.*

1.5 Mae'r TMSS hwn hefyd yn ymgorffori Strategaeth Fuddsoddi'r Cyngor.

## 2. Sefyllfa'r Trysorlys:

2.1 Amcangyfrif o sefyllfa'r trysorlys ar 31/3/2009 a'r blynyddoedd ariannol dilynol yw:

| | 31/3/2009 Amcangyfrif £m | % | 31/3/2010 Amcangyfrif £m | 31/3/2011 Amcangyfrif £m | 31/3/2012 Amcangyfrif £m |
|---|---|---|---|---|---|
| **Benthyca allanol:** | | | | | |
| Cyfradd benodol – PWLB | 109.8 | 82 | 111.1 | 112.7 | 113.3 |
| Cyfradd benodol – y Farchnad | 9.5 | 7 | 9.5 | 9.5 | 9.5 |
| Cyfradd newidiol – PWLB | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyfradd newidiol – y Farchnad | 14.3 | 11 | 14.3 | 14.3 | 14.3 |
| Dyledion hirdymor eraill* | 0.6 | 0 | 0.4 | 0.2 | 0.1 |
| **Cyfanswm dyled allanol** | 134.2 | 100 | 135.3 | 136.7 | 137.2 |
| | | | | | |
| **Buddsoddiadau:** | | | | | |
| Rheolwyd yn fewnol | | | | | |
| - Adneuon byrdymor | 31.1 | 76 | 36.0 | 32.4 | 29.6 |
| - Adneuon hirdymor | 10.0 | 24 | 10.0 | 5.0 | 5.0 |
| - Bondiau goruwchgenedlaethol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| - Bondiau Corfforaethol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Buddsoddiadau** | 41.1 | 100 | 46.0 | 37.4 | 34.6 |

** Bydd newidiadau cyfrifyddu o naill ai 2009/10 neu 2010/11 yn gofyn cynnwys cynlluniau Menter Cyllid Preifat yn y Dyledion Hirdymor Eraill.*

2.2 Amcangyfrif o daliadau llog yn 2009/10 yw £8.1m a derbyniadau llog yw £1.8m.

## 3. Rhagolwg o Gyfraddau Llog:

Mae rhagolwg cyfraddau llog economaidd sy'n cael ei ddarparu gan gynghorwr trysorlys y Cyngor, Arlingclose Cyf, yn cael ei ddangos ar dudalen 41. Caiff ei grynhoi isod:

Gweithredodd bancwyr canolog yn bendant ym mis Hydref wrth i chwalu cyfundrefnau ariannol i bob diben fygwth ansefydlogi'r economi byd-eang. Roedd yn cynnwys ailgyfalafiadau dan nawdd y llywodraeth, ymyriadau trwy ddarparu hylifedd a gwarantau benthyciadau; mewn rhai achosion gwladoli sefydliadau ariannol yn y sector preifat; tynnu asedau dan fygythiad o fantolenni banciau trwy beirianwaith cyllid arbennig; a thorri cyfraddau llog cydgysylltiedig mewn argyfwng.

Crebachodd economïau'r DU, Ardal yr Ewro a'r Unol Daleithiau yn nhrydydd chwarter 2008. Mae'r gobeithion am dwf yn aros yn gyson wael yn chwarter 4 a 2009. Y rhagolwg yw y bydd gwerth asedau'n cwympo ymhellach, yn enwedig y rhai sy'n nwyddau – a cysylltiedig â thai. Mae'n debygol y bydd credyd yn aros yn anodd ei gael ac amodau credyd yn anodd. Mae disgwyl y bydd chwyddiant uchel bwyd ac ynni a wasgodd yn dynn ar wir incymau yn gwanhau yn 2009, ond bydd defnyddwyr a busnesau'n dringo gwario

llai i warchod neu drwsio eu mantolenni. Mae disgwyl i chwyddiant cyflogau aros yn isel a'r farchnad lafur yn wan. Gallai rhagolwg ecwiti tai negyddol, a/neu ddiweithdra cynyddol a gwerth asedau isel arwain at dro negyddol arall mewn hyder fydd, yn ei dro, yn effeithio ar brisiau tai a gwariant defnyddwyr.

Yn fyd-eang hefyd, mae'r rhagolwg economaidd yn wael wrth i ddyled a diffygion chwyddo a dadfeilio daro ar weithgarwch economaidd a thwf. Mae UDA yn dioddef yr argyfwng ariannol gwaethaf ers y Dirwasgiad Mawr a gallai ddioddef y glaniad economaidd caletaf ers y 1980au cynnar. Mae disgwyl i grŵp gwledydd G7 i gyd fod mewn dirwasgiad yn 2009.

Yn dilyn y gostyngiad cydgysylltiedig o 0.5% mewn cyfraddau ym mis Hydref, gostyngodd MPC Banc Lloegr gyfraddau 1.5% arall ym mis Tachwedd i 3%, lefel a dybiwyd oedd yn briodol i'r sefyllfa economaidd oedd ohoni. Dangosodd hyn bod y Banc yn benderfynol o symud o flaen y gromlin a lliniaru hyd a dyfnder yr arafiad economaidd. Mae Federal Reserve UDA wedi bod yn heini iawn a gostyngwyd cyfradd y Federal Funds i 1%. Bydd modd cyfiawnhau mwy o ostyngiad cyfraddau yn y DU ac yn Ewro-dir a bydd angen toriadau treth ac arweiniadau cyllidol i gefnogi hynny.

**Cyflwr ac anwadalwch y farchnad**: Mae anwadalwch y farchnad yn aros yn uchel, gyda chwant mentro ar drai isel; mae disgwyl i'r marchnadoedd barhau mewn 'modd cadwraeth cyfalaf' tan yn gynnar yn 2009. Ar adeg yr adroddiad strategaeth hwn (Tachwedd 2008) roedd marchnadoedd arian cyfanwerthu'n dal yn helbulus ac roedd banciau'n debygol o ddal i gystadlu am adneuon cynilwyr, ond yn amharod i fenthyca i'w gilydd nac ymestyn benthyciadau i ddefnyddwyr a busnesau pan fo'n amlwg bod rhagolwg o wasgfa economaidd ddifrifol.

Er bod cyfraddau Libor i'w gweld yn disgyn, mae'r anghysondeb rhwng cyfraddau llog swyddogol a'r farchnad yn debygol o aros yn llydan am rai misoedd i ddod. Gallai'r peirianwaith trawsyrru sy'n gweithio'n wael i drosglwyddo cyfraddau is i ddefnyddwyr beri i'r llywodraethau ymyrryd yn uniongyrchol rhwng banciau a chorfforaethau / unigolion. Bydd dinistr pris ecwitïau yn cadw marchnadoedd stoc yn ddi-hwyl ac, er y gall fod arwyddion petrus o sefydlogrwydd, byddai'n rhy gynnar i ddweud a gyrhaeddwyd gwaelod.

Bydd y dirywiad sydd i'w ddisgwyl mewn cyllid cyhoeddus - trwy gost cynnal y gyfundrefn ariannol a hefyd wrth i'r dirwasgiad daro ffrydiau cyllid y llywodraeth - a'r diffyg cynyddol yn gofyn am gyhoeddiad sylweddol o stociau newydd y llywodraeth yn 2009. Mae disgwyl i'r gorgyflenwad hwn wthio elwau dyddiad hwy yn uwch ond nid yn ymosodol felly. Fodd bynnag, mae disgwyl i elwau dyddiad byr gwympo gyda momentwm cynyddol gostyngiad yng nghyfraddau polisi swyddogol.

Rhagolwg Arlingclose o Gyfradd Banc y DU (Tachwedd 2008) yw:

| | Dec-08 | Mar-09 | Jun-09 | Sep-09 | Dec-09 | Mar-10 | Jun-10 | Sep-10 | Dec-10 | Mar-11 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Official Bank Rate** | | | | | | | | | | |
| Upside risk | +0.50 | +1.00 | +0.75 | +0.50 | +0.50 | +0.50 | | | | |
| **Central case** | **2.50** | **1.50** | **1.50** | **1.50** | **1.50** | **1.75** | **2.00** | **2.50** | **3.00** | **3.50** |
| Downside risk | | -0.50 | -1.00 | -0.50 | -0.50 | -0.50 | | | | |

Bydd y gostyngiad mewn cyfraddau llog swyddogol i lefelau sy'n isel iawn yn hanesyddol yn dod â chanlyniadau uniongyrchol ac anuniongyrchol i weithrediadau ariannol a chyllidebau'r Cyngor hwn.

## 4. Gofyniad a Strategaeth Fenthyca:

4.1 Caiff angen benthyca sylfaenol y Cyngor at ddibenion cyfalafol ei fesur trwy gyfeirio at ei Ofyniad Codi Cyfalaf (CFR) – gwelwch dudalen 26. Y CFR fydd yn penderfynu gofyniad y Cyngor i wneud Isafswm Darpariaeth Refeniw ar gyfer Talu Dyledion (MRP) o'i Gyllideb Gyllidol. Fe all benthyca mewn gwirionedd fod yn fwy neu lai na'r CFR.

| **DP Rhif 3** | **Gofyniad Codi Cyfalaf** | 31/3/2009 Cymeradwy £m | 31/3/2009 Diwygiedig £m | 31/3/2010 Amcangyfrif £m | 31/3/2011 Amcangyfrif £m | 31/3/2012 Amcangyfrif £m |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Heblaw HRA* | | 118.9 | 118.1 | 119.9 | 122.2 | 123.5 |
| HRA | | 12.5 | 16.3 | 15.4 | 14.5 | 13.7 |
| **Cyfanswm CFR** | | **131.4** | **134.4** | **135.3** | **136.7** | **137.2** |

* ***Sylwch:*** *Bydd newidiadau cyfrifyddu o naill ai 2009/10 neu 2010/11 yn gofyn cynnwys cynlluniau Menter Cyllid Preifat yn y Gofyniad Codi Cyfalaf.*

4.2 Yn unol â'r Cod Materion Ariannol, bydd y Cyngor yn sicrhau nad yw benthyca allanol clir, heblaw am y tro, yn fwy na'r CFR yn y flwyddyn flaenorol ynghyd ag amcangyfrifon unrhyw CFR ychwanegol am y flwyddyn ariannol gyfredol a'r ddwy nesaf.

4.3 Bydd gwariant cyfalaf heb ei ariannwyd o adnoddau mewnol (h.y. Derbyniadau Cyfalaf, Grantiau Cyfalaf a Chyfraniadau, Cyllid neu Adnoddau wrth Gefn) yn peri cynnydd yn y CFR (yr angen sylfaenol i fenthyca) a gall hynny, yn ei dro, greu mwy o ofyniad i godi MRP yn y Cyfrif Cyllid.

4.4 The cumulative estimate of the long-term borrowing requirement calculated as follows:

| | 31/3/2009 Amcangyfrif £m | 31/3/2010 Amcangyfrif £m | 31/3/2011 Amcangyfrif £m | 31/3/2012 Amcangyfrif £m |
|---|---|---|---|---|
| Gofyniad Codi Cyfalaf | 134.4 | 135.3 | 136.7 | 137.2 |
| **Llai:** Proffil Benthyca Presennol a Dyledion Hirdymor Eraill | 134.2 | 133.2 | 130.6 | 126.5 |
| **Gofyniad Benthyca Cronnus** | **0.2** | **2.1** | **6.1** | **10.7** |

4.5 Mae'n well gan y Cyngor gadw rheolaeth eithaf dros ei weithgareddau benthyca yn ogystal â hyblygrwydd yn ei bortffolio benthyciadau. Mae'r gefnlen economaidd yn aros yn ansicr a gallai rhagolwg cyfraddau swyddogol ac elw stociau'r llywodraeth newid yn sylweddol. Bydd gwariant cyfalaf, cyflwr y farchnad a chyfraddau llog yn cael eu harolygu yn ystod y flwyddyn er mwyn lleihau costau benthyca dros y tymor canolig i hwy. Bydd agwedd

ddarbodus ac ymarferol at fenthyca yn cael ei chynnal er mwyn lleihau costau benthyca heb beryglu sefydlogrwydd tymor hwy'r portffolio, yn gyson â Dangosyddion Darbodus y Cyngor.

4.6 Ar y cyd â chyngor ei gynghorwr trysorlys, Arlingclose Cyf, bydd y Cyngor yn adolygu'r dewisiadau sydd ganddo wrth fenthyca o'r PWLB, y farchnad a ffynonellau eraill a nodwyd yn Atodlenni Arferion Rheoli'r Drysorfa – adran 4 hyd at y terfyn o fewn ei CFR a Therfyn Benthyca Fforddiadwy (a ddiffiniwyd gan CIPFA fel y Terfyn Awdurdodedig).

4.7 Y rhagolwg yw y bydd elwau dyddiad byr stociau'r llywodraeth yn sylweddol is nag elwau dyddiad canolig a hir stociau'r llywodraeth yn ystod y flwyddyn ariannol. Ar waethaf cyhoeddi stociau dyddiad byr ychwanegol i dalu am gefnogaeth llywodraeth y DU i'r diwydiant bancio, mae disgwyl i stociau dyddiad byr y llywodraeth elwa ar ddisgwyliadau o gyfraddau llog is wrth i'r economi frwydro trwy ddirwasgiad. Bydd elw o aeddfedu'r rhain yn cwympo wrth i ddisgwyliadau cyfraddau llog is gynyddu. O ganlyniad dylai cyfraddau PWLB dyddiad byr greu rhai cyfleoedd benthyca cyfradd sefydlog deniadol.

4.8 Mae'r ysgytiadau yn y marchnadoedd ariannol yn ail hanner 2008 yn gadael y DU mewn cyfnod gwahanol o ran cyfraddau llog swyddogol sy'n cael eu rhagweld i fynd islaw 2%. Gydag Arlingclose, bydd y Cyngor yn pwyso a mesur rhinweddau cymharol cyllido cyfradd newidiol y mae disgwyl iddo ddisgyn yn isel dros ben. Bydd penderfyniadau i fenthyca ar gyfraddau llog isel, amrywiol yn cael eu gwneud ar ôl ystyried lefel absoliwt cywerth cyfraddau llog tymor hwy a maint enillion cyfradd newidiol ar weddillion buddsoddi'r Cyngor. Os bydd i gyfraddau tymor hwy symud islaw cost benthyca cyfradd newidiol bydd unrhyw amlygrwydd strategol i gyfraddau llog newidiol yn cael ei adolygu ac, os yw hynny'n briodol, ei ostwng.

4.9 Bydd union faint y benthyca a'r amseriad yn dibynnu ar wariant cyfalaf, rhagolygon cyfraddau llog a chyflwr y farchnad yn ystod y flwyddyn, er mwyn lleihau costau benthyca. Bydd Arlingclose yn cynghori'r Cyngor pryd yn benodol i fenthyca. Gall hyn gynnwys benthyca cyn bod gofynion yn y dyfodol ond bod benthyca at ei gilydd yn cael ei gadw o fewn CFR estynedig y Cyngor a'i Derfyn Benthyca Fforddiadwy cymeradwy.

4.10 Bydd y Cyngor yn gwerthuso dewisiadau ariannol i weld sut y penderfynodd ar 'werth am yr arian' wrth ddefnyddio adnoddau.

## 5. Aildrefnu Dyledion:

5.1 Bydd y Cyngor yn dal i gynnal polisi hyblyg ar aildrefnu dyledion. Gall anwadalwch y farchnad roi cyfleoedd i aildrefnu dyledion o bryd i'w gilydd. Byddai'r sail resymegol i aildrefnu'n un neu fwy o'r canlynol:

- Arbedion mewn costau llog gyda'r risg leiaf.
- Cydbwyso proffil anwadalwch (h.y. cymhareb dyled cyfradd sefydlog i newidiol) y portffolio dyledion.
- Newid proffil dyledion sy'n aeddfedu i leihau unrhyw risgiau ailgyllido cynhenid.

5.2 Nid yw aildrefnu dyled PWLB ers cyflwyno ei gyfraddau ad-dalu ar 1 Tachwedd 2007 wedi dod i ben ond, yn ddiamau, mae wedi dod yn anoddach ac yn rhoi mwy o bwyslais ar amseriad a math benthyca newydd. Mae cyfraddau PWLB byrdymor wedi dangos cryn dipyn o anwadalwch ym mlwyddyn ariannol 2008/09; mae'r anwadalwch hwn wedi bod yn

llawer llai amlwg o ran aeddfedu dyddiad hir. Os bydd i batrwm tebyg ymddangos ym mlwyddyn ariannol 2009/10, gallai hyn roi rhai cyfleoedd aildrefnu i'r Cyngor.

5.3 Bydd unrhyw weithgaredd aildrefnu'n cael ei wneud o fewn polisi rheoli trysorlys a strategaeth y Cyngor. Bydd y Cyngor yn cytuno strategaeth a fframwaith ymlaen llaw gydag Arlingclose ar gyfer ad-dalu / aildrefnu dyledion os daw cyfle. Wedi hynny bydd portffolio dyledion y Cyngor yn cael ei arolygu'n rheolaidd gyferbyn â chyfraddau llog cywerth a'r dewisiadau ailgyllido sydd ar gael. Fel daw cyfle, byddant yn cael eu nodi gan Arlingclose a'u trafod gyda swyddogion y Cyngor.

5.4 Bydd holl weithgaredd aildrefnu yn cydymffurfio â gofynion cyfrifyddu SORP Awdurdodau Lleol a gofynion rheoleiddiol y Rheoliadau Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu (OS 2007 Rhif 1051 (W.108) fel y newidiwyd gan OS 2008/588 (W.59).

5.5 Bydd gweithgaredd aildrefnu benthyca a dyledion yn cael ei hysbysu yn adroddiad Alldro Rheoli'r Drysorfa i'r Bwrdd Gweithredol erbyn 30 Medi 2009.

## 6. Strategaeth a Pholisi Buddsoddi:

### Cefndir:

6.1 Yn yr un modd, mae Canllaw Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CCC) i Lywodraeth Leol ar Fuddsoddi yng Nghymru yn gofyn pennu Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol (AIS). Mae'r Canllaw yn caniatáu cyfuno'r TMSS a'r AIS yn un ddogfen.

### Polisi Buddsoddi:

6.2 Amcan polisi cyffredinol y Cyngor yw buddsoddi ei arian dros ben yn ddarbodus. Blaenoriaethau buddsoddi'r Cyngor yw:

- sicrwydd y cyfalaf a fuddsoddwyd;
- hylifedd y cyfalaf a fuddsoddwyd;
- elw mwyaf sy'n gymesur â sicrwydd a hylifedd.

Mae gweithdrefn hapfasnachol o fenthyca yn gyfan gwbl er mwyn buddsoddi'n anghyfreithlon.

6.3 Dosbarthwyd buddsoddiadau fel buddsoddiadau 'Penodedig' neu 'Amhenodedig' seiliedig ar y meini prawf yng Nghanllaw CCC. Caiff offerynnau y gall y Cyngor eu defnyddio o fewn ei strategaeth fuddsoddi eu dangos ar dudalen 42.

6.4 Bydd y Cyngor yn cynnal rhestr bartïon seiliedig ar ei feini prawf ac yn arolygu a diweddaru statws credyd y sefydliadau'n rheolaidd. Gall yr asesiad hwn gynnwys cyfraddiadau credyd, gwahanol asesiadau o gryfder credyd, a gwybodaeth arall.

6.5 Mae amcangyfrif o fuddsoddiadau'r Cyngor yn cael eu cyflwyno yn 2.1 y TMSS hwn.

### Strategaeth Fuddsoddi:

6.6 Mae terfysg y farchnad ariannol fyd-eang yn 2008 wedi gorfodi buddsoddwyr arian cyhoeddus ailystyried mater risg gyferbyn ag elw. Mae incwm o fuddsoddiadau'n gymorth allweddol yng nghyllideb y Cyngor. Bydd cyfraddau llog swyddogol yn llawer is yn

2009/10 a rhaid addasu strategaeth y Cyngor tuag at y datblygiad hwn ar yr un pryd â chadw at brif amcan sicrwydd arian a fuddsoddwyd.

6.7 Dan bwerau dirprwyedig, bydd y Prif Swyddog Cyllid a Pherfformiad yn gwneud buddsoddiadau o'r ffurf fwyaf priodol yn unol â'r amcanion buddsoddiad, gofynion rheoli incwm a risg a Dangosyddion Darbodus. Bydd penderfyniadau a wneir ar y portffolio buddsoddiadau craidd yn cael eu hysbysu yn adroddiad Alldro Rheoli'r Drysorfa i'r Bwrdd Gweithredol.

**Rheoli buddsoddiadau'n fewnol:**

6.8 Caiff buddsoddiadau llif arian cyfnod byrrach y Cyngor eu gwneud gan gyfeirio at ragolygon Cyfradd Banc y DU a chyfraddau'r farchnad arian. O ran yr arian hwn, bydd y Cyngor yn buddsoddi'n bennaf yn y canlynol:

- Cyfleuster Adneuo'r Asiantaeth Rheoli Dyledion
- Cronfeydd y Farchnad Arian gyda chyfraddiad AAA gan fuddsoddi'n bennaf yng ngwarannau'r llywodraeth
- Cronfeydd y Farchnad Arian gyda chyfraddiad AAA (Aeddfedrwydd Cyfartalog Pwysol 60-diwrnod) gan fuddsoddi mewn offerynnau a gyhoeddir yn bennaf gan sefydliadau ariannol
- Adneuon gydag awdurdodau lleol eraill
- Cyfrifon busnes wrth gefn
- Adneuon tymor
- Tystysgrifau adneuo

6.9 Mae'r cyfraddau llog o'r DMADF islaw cyfraddau cywerth y farchnad arian. Fodd bynnag, mae'r elw'n gyfaddawd derbyniol am y warant bod cyfalaf y Cyngor yn ddiogel. Yn yr un modd, bydd yr elw ar MMF yn buddsoddi'n bennaf yng ngwarannau'r llywodraeth ac ar CD sy'n cael eu gwarantu gan y llywodraeth islaw'r elw ar warannau cywerth cyfaddawd risg-elw y mae'r Cyngor yn ei gydnabod ac yn ei dderbyn er mwyn diogelu ei fuddsoddiadau.

6.10 Mae modd buddsoddi cyfran o weddillion craidd mewnol y Cyngor gyda chanolbwynt strategol tymor hwy. Gyda rhagolwg y bydd cyfraddau llog yn gostwng ymhellach yn 2009 ac yn aros yn gymharol isel yn 2010, bydd y Cyngor yn pwyso a mesur y cyfleoedd buddsoddi tymor hwy sydd ar gael o fewn y terfynau a bennodd y Cyngor ar gyfer Buddsoddiadau Amhenodedig ac mae'n debygol y bydd yn cynnwys:

- **Bondiau goruwchgenedlaethol (bondiau a gyhoeddir gan fanciau datblygu amlochrog):**
  Hyd yn oed ar yr elwau ildio is sy'n debygol o fod mewn grym, gallai'r elw fod yn ddeniadol o'i gymharu â'r rhagolwg fwyfwy isel o gyfraddau llog swyddogol. Mae'r gwarantau llywodraeth Ewrop gyfan ar y cyd ac unigol sy'n bodoli ar y bondiau hyn yn rhoi mynediad at rai o'r risgiau credyd isaf sydd ar gael.

- **Bondiau a warantwyd gan lywodraeth y DU ac a gyhoeddir gan fanciau / cymdeithasau adeiladu**:
  Mae Cynllun Gwarantu Credyd 2008 Llywodraeth y DU yn caniatáu i sefydliadau penodol y DU gyhoeddi bondiau dyddiad byr gyda gwarant bendant y llywodraeth. Caiff y bondiau eu cyhoeddi am ychydig dros fondiau sylfaenol y llywodraeth a byddai'n ddewis buddsoddi diogel tymor hwy. (Dan statud presennol, byddai'r bondiau hyn yn fuddsoddiadau gwariant cyfalaf.)

6.11 Bydd holl weithgaredd buddsoddi'n cydymffurfio â gofynion cyfrifyddu SORP awdurdodau lleol.

## 7. Gofyniad Cyllideb Fantoledig:

7.1 Mae'r Cyngor yn cydymffurfio â darpariaethau Adran 32 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 i bennu cyllideb fantoledig.

## 8. Datganiad MRP Blynyddol:

8.1 Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) (Diwygio) 2008 (OS 2008/588 (W.59)) yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i wneud darpariaeth ddarbodus ar gyfer ad-dalu dyledion. Cyhoeddwyd cyfarwyddyd ar Isafswm Darpariaeth Refeniw gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac mae'n ofynnol ar awdurdodau lleol i "ystyried" y fath gyfarwyddyd dan adran 21(1A) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003.

8.2 Y pedwar dewis MRP sydd ar gael yw:
Dewis 1: Dull Rheoleiddiol
Dewis 2: Dull CFR
Dewis 3: Dull Oes Asedau
Dewis 4: Dull Dibrisiant

8.3 MRP yn 2009/10: Nid oes modd defnyddio Dewisiadau 1 a 2 heblaw ar gyfer gwariant cynaledig. Mae dulliau gwneud darpariaeth ddarbodus ar gyfer gwariant a hunan-ariannwyd yn cynnwys Dewisiadau 3 a 4 (y mae modd eu defnyddio hefyd ar gyfer gwariant cynaledig os yw'r Cyngor yn dewis).

8.4 Bydd y Datganiad MRP yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor cyn dechrau blwyddyn ariannol 2009/10. Os bydd cynnig ar unrhyw adeg i amrywio telerau'r Datganiad MRP gwreiddiol yn ystod y flwyddyn, dylid cyflwyno datganiad diwygiedig i'r Cyngor bryd hynny.

8.5 Bydd y Cyngor yn defnyddio Dewis 2 o ran gwariant cyfalaf cynaledig a Dewis 3 o ran gwariant cyfalaf heb ei gynnal.

## 9. Hysbysu Alldro'r Trysorlys:

9.1 Bydd y Prif Swyddog Cyllid a Pherfformiad yn cyflwyno adroddiad i'r Bwrdd Gweithredol ar weithgaredd rheoli'r trysorlys a pherfformiad yn Adroddiad Alldro Rheoli'r Drysorfa heb fod ar ôl 30ain Medi yn dilyn diwedd y flwyddyn ariannol.

## 10. Eitemau eraill:

### Adolygiad CIPFA o'r Cod Materion Ariannol.

10.1 Yn gynnar yn 2008 gwnaeth CIPFA waith ymgynghori ar adolygu gweithredu a defnyddio cyfredol y Cod Materion Ariannol. Nid yw CIPFA eto wedi cyhoeddi ei gasgliadau'n

deillio o'r broses ymgynghori. Os bydd CIPFA yn gwneud newidiadau i'r Cod, efallai y bydd angen adlewyrchu'r rhain yn nogfennau Rheoli'r Drysorfa a'r Strategaeth Fuddsoddi.

**Rhagolwg Arlingclose o Gyfraddau Llog (Tachwedd 2008)**



- Mae pwysau ar Fanciau Canolog i ostwng cyfraddau'n bendant – hyd yn oed i sero neu'n agos – i osgoi peryglon dirwasgiad hir ac, yn wir, datchwyddiant.
- Ar hyn o bryd 3% yw Cyfradd Banc y DU yn dilyn dau ostyngiad yn hydref 2008. Rhagolwg Arlingclose yw y bydd cyfraddau'r DU yn disgyn ymhellach ac y bydd angen cynnal hynny gyda thoriadau treth ac arweiniadau cyllidol.

Tybiaethau sylfaenol:

- Mae'r peryglon i sefydlogrwydd ariannol y DU wedi gostwng yn dilyn y gefnogaeth uniongyrchol sylweddol sydd ar gael gan y llywodraeth i'r gyfundrefn ariannol.
- Serch hynny, mae amgylchiadau arian a chredyd wedi tynhau'n sydyn. Mae'r credyd sydd ar gael i aelwydydd a busnesau'n debygol o aros yn gyfyngedig am beth amser, fydd yn arwain at gyfnod hir o ddiffyg gwariant defnyddwyr.
- Gallai rhagolwg ecwiti tai negyddol, a/neu ddiweithdra cynyddol a gwerth isel asedau arwain at droad negyddol arall yn ôl i hyder fydd, yn ei dro, yn effeithio ar brisiau tai a gwariant defnyddwyr.
- Bydd data CMC chwarter 4 2008 yn cadarnhau bod y DU mewn dirwasgiad. Symudodd agwedd Banc Lloegr yn sylweddol. Disodlwyd y pwyslais blaenorol ar bennu polisi ariannol i ymladd chwyddiant gan bryderon i osgoi dirwasgiad dwfn a hir.
- Bydd dirywiad sydyn cyllid cyhoeddus y DU yn peri cyhoeddi bondiau newydd y llywodraeth yn sylweddol yn 2009. Yn y pen draw bydd y cyflenwad gormodol hwn yn gwthio elwau dyddiad hwy yn uwch, er nad yn ymosodol felly.
- Mae data digalon yn UDA ac Ardal yr Ewro'n dangos economïau'n dirywio'n gyflym. Mae mandad deuol y Ffederal Reserve yn galluogi iddo fod yn ymosodol pan fo twf yn lleihau; mae'r Fed wedi gadael y drws yn agored i ostwng cyfraddau eto o'r 1% presennol. I bob diben mae Ardal yr Ewro mewn dirwasgiad a bydd cyfraddau'n cael eu gostwng ymhellach o'r 3.25% presennol.

**Buddsoddiadau Penodedig ac Amhenodedig**

**Buddsoddiadau penodedig a ddynodwyd at ddefnydd y Cyngor:**

Buddsoddiadau Penodedig fydd y rhai sy'n cyrraedd y meini prawf yng Nghyfarwyddyd Llywodraeth Cynulliad Cymru, h.y. bod y buddsoddiad:

- mewn sterling yn bennaf
- yn cyrraedd aeddfedrwydd cyn pen blwyddyn
- yn cyrraedd y meini prawf credyd "uchel" (gwelwch isod) fel y penderfynwyd gan y Cyngor neu'n cael ei wneud gyda llywodraeth y DU neu gydag awdurdod lleol yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban.
- na ddiffiniwyd gwneud fel gwariant cyfalaf dan adran 20(1)(d) yn OS 2004 Rhif 1010 (W.107) (h.y. nad yw'r buddsoddiad yn gyfalaf benthyg nac yn gyfalaf cyfranddaliadau mewn corff corfforedig).

Buddsoddiadau "Penodedig" a ddynodwyd at ddefnydd y Cyngor yw:

- Adneuon yng Nghyfleuster Adneuo Cyfrif Rheoli Dyledion DMO
- Adneuon gydag awdurdodau lleol y DU
- Adneuon gyda banciau a chymdeithasau adeiladu
- *Tystysgrifau adneuo gyda banciau a chymdeithasau adeiladu
- *Bondiau a gyhoeddwyd gan lywodraeth y DU
- *Bondiau a gyhoeddwyd gan fanciau datblygu amlochrog
- Cronfeydd y Farchnad Arian, h.y. cronfeydd hylifedd 'AAA' gydag Aeddfedrwydd Cyfartalog Pwysol (WAM) o 60 diwrnod a Gwerth Asedau Clir Cyson (NAV Cyson).

** Bydd buddsoddiadau yn yr offerynnau hyn ar gyngor cynghorwr trysorlys y Cyngor.*

Ar gyfer partïon gyda statws credyd, y meini prawf credyd "uchel" fydd y cyfraddiadau asiantaeth statws credyd canlynol:

| | Fitch | Moody's | Standard & Poor |
|---|---|---|---|
| Byrdymor | F1 | P-1 | A-1 |
| Hirdymor | A- | A3 | A- |
| Cryfder Unigol / Ariannol | C | C | - |
| Cefnogaeth | 3 | - | - |

Bydd y Cyngor hefyd yn ystyried gwybodaeth am ddatblygiadau corfforaethol a theimlad y farchnad tuag at bartïon buddsoddi.

Y terfyn ar gyfanswm buddsoddiadau gyda pharti unigol yw £10 miliwn.

Y terfyn ar unrhyw un fargen fuddsoddi yw £6 miliwn.

**Buddsoddiadau Amhenodedig a benderfynwyd at ddefnydd y Cyngor:**

Wedi ystyried y sail resymegol a'r risg gysylltiedig â Buddsoddiadau Amhenodedig, penderfynwyd ar y canlynol at ddefnydd y Cyngor:

| | Defnydd mewnol | Aeddfedrwydd hwyaf | % uchaf o'r portffolio | Gwariant cyfalaf? |
|---|---|---|---|---|
| ▪ Adneuon gyda banciau a chymdeithasau adeiladu<br>▪ Tystysgrifau adneuo gyda banciau a chymdeithasau adeiladu | ✓<br>✓ | *5 mlynedd* | *50%* at ei gilydd | Na |
| Bondiau a bondiau'r llywodraeth<br>▪ Bondiau'r llywodraeth<br>▪ Bondiau a gyhoeddwyd gan fanciau datblygu amlochrog<br>▪ Bondiau a gyhoeddwyd gan sefydliadau ariannol a warantwyd gan lywodraeth y DU<br>▪ Bondiau sterling gan lywodraethau sofran heblaw'r DU | ✓ (ar gyngor cynghorwr y trysorlys) | *10 mlynedd* | *50%* at ei gilydd | Na |
| Cronfeydd y Farchnad Arian a Chynlluniau Buddsoddi Cyfunol (cronfeydd cronedig sy'n cyd-fynd â'r diffiniad yn OS 2004 Rhif 1010 (W.107) ond heb statws credyd) | ✓ (ar gyngor cynghorwr y trysorlys) | Nid oes gan y cronfeydd hyn ddyddiad aeddfedu diffiniedig | *50%* | Na |
| Bondiau gwarantedig y llywodraeth ac offerynnau dyled (e.e. nodiadau cyfradd amrywiol) a gyhoeddwyd gan gorfforaethau corfforedig | ✓ | *10 mlynedd* | *£0M* | **Ie** |
| Bondiau heb eu gwarantu ac offerynnau dyled (e.e. nodiadau cyfradd amrywiol) a gyhoeddwyd gan gorfforaethau corfforedig | ✓ | *10 mlynedd* | *£0M* | **Ie** |
| Buddsoddiadau nad ydynt yn cyd-fynd â diffiniad yn OS 2004 Rhif 1010 (W.107) | ✓ (ar gyngor cynghorwr y trysorlys) | Nid oes gan y cronfeydd hyn ddyddiad aeddfedu diffiniedig | *£0M* | **Ie** |

1. Wrth benderfynu cyfnod buddsoddiad cyn cyrraedd aeddfedrwydd, dylid ystyried bod y buddsoddiad yn dechrau ar ddyddiad ymrwymiad y buddsoddiad yn hytrach na dyddiad pryd talu'r cyllid i'r parti arall.

2. Bydd rheolwyr cyllid y Cyngor yn defnyddio'r offerynnau uchod trwy gyfeirio at y canllawiau cyllid sydd yn y cytundeb rhwng y Cyngor a'r rheolwr unigol.